Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Niferoedd staff

19 Hydref 2023

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 22 Medi, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

*A allwn ni ofyn am y wybodaeth ganlynol o dan y rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth:*

1. *Faint o staff parhaol newydd a ymunodd â'ch sefydliad yn 2022?*
2. *Faint o staff parhaol newydd a ddaeth drwy ddarparwyr allanol yn 2022?*
3. *Faint o aelodau sy'n gweithio yn eich Tîm Recriwtio?*
4. *Faint mae'n cymryd i chi recriwtio, o'r cyfnod hysbysebu nes bod staff yn ymuno?*
5. *Beth oedd eich cyfradd athreulio yn 2022?*
6. *Beth yw eich cost gyfartalog fesul aelod o staff sy'n cael ei recriwtio (gan gynnwys denu a sgrinio) yn 2022?*
7. *Faint wnaethoch chi ei wario gyda darparwyr recriwtio parhaol allanol yn 2022?*
8. *Faint o gontractwyr asiantaeth/dros dro/interim unigryw wnaethoch chi eu defnyddio yn 2022?*
9. *Faint wnaethoch chi ei wario ar gontractwyr asiantaeth/dros dro/interim yn 2022?*
10. *A ydych chi'n cyrraedd eich targedau amrywiaeth? (ydych neu nac ydych)*
11. *Faint o ymgeiswyr a ymgeisiodd am rolau yn 2022? Beth yw cyfradd gadael eich ymgeiswyr?*
12. *Pa systemau ydych chi'n eu defnyddio ar gyfer eich proses recriwtio barhaol?*

Gweler ein hymateb isod.

1. *Faint o staff parhaol newydd a ymunodd â'ch sefydliad yn 2022?*

Ymunodd 44 aelod newydd o staff ar gontractau parhaol â'r sefydliad yn 2022.

2. *Faint o staff parhaol newydd a ddaeth drwy ddarparwyr allanol yn 2022?*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg | We welcome correspondence in both Welsh and English.**

Defnyddiodd Comisiwn y Senedd bartner chwilio gweithredol (ochr yn ochr â'n trefniadau hysbysebu arferol) ar gyfer tri aelod newydd o staff parhaol.

3. *Faint o aelodau sy'n gweithio yn eich Tîm Recriwtio?*

Mae chwe aelod yn rhan o'r Tîm Recriwtio. Arweinydd y Tîm yw arweinydd y Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant hefyd.

4. *Faint mae'n cymryd i chi recriwtio, o'r cyfnod hysbysebu nes bod staff yn ymuno?*

Yn achos swyddi allanol, mae'n cymryd 142 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i recriwtio o'r cyfnod hysbysebu nes bod staff yn ymuno (fel ym mis Medi 2023).

5. *Beth oedd eich cyfradd athreulio yn 2022?*

Ein dealltwriaeth o "cyfradd athreulio yn 2022" yw canran y staff a adawodd y Senedd yn 2022. Ar y sail honno, 8 y cant oedd y gyfradd athreulio.

6. *Beth yw eich cost gyfartalog fesul aelod o staff sy'n cael ei recriwtio (gan gynnwys denu a sgrinio) yn 2022?*

Yn 2022 (yn seiliedig ar recriwtio 44 aelod o staff parhaol newydd), £1,175 yw'r gost ar gyfartalog fesul aelod o staff. Mae hyn yn cynnwys costau hysbysebu a denu (gan gynnwys costau partner chwilio gweithredol a chostau fetio).

7. *Faint wnaethoch chi ei wario gyda darparwyr recriwtio parhaol allanol yn 2022?*

Yn 2022, gwariodd Comisiwn y Senedd £14,582 gyda phartneriaid chwilio gweithredol.

8. *Faint o gontractwyr asiantaeth/dros dro/interim unigryw wnaethoch chi eu defnyddio yn 2022?*

Yn 2022, ymunodd 10 aelod newydd o staff ar gontract dros dro a dau gontractwr.

9. *Faint wnaethoch chi ei wario ar gontractwyr asiantaeth/dros dro/interim yn 2022?*

Yn 2022, gwariodd Comisiwn y Senedd £31,120 ar gontractwyr asiantaeth, dros dro ac interim.

10. *A ydych chi'n cyrraedd eich targedau amrywiaeth? (ydych neu nac ydych)*

Nid oes gan Gomisiwn y Senedd dargedau amrywiaeth. Mae gan Gomisiwn y Senedd **Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-26** sy'n nodi ei amcanion blaenoriaeth ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant.

11. *Faint o ymgeiswyr a ymgeisiodd am rolau yn 2022? Beth yw cyfradd gadael eich ymgeiswyr?*

Gwnaeth 976 o ymgeiswyr gais am rolau a hysbysebwyd yn allanol (gan gynnwys rolau dros dro a pharhaol). Nid yw ein system yn cofnodi cyfraddau gadael, felly nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'ch cais.

12. *Pa systemau ydych chi'n eu defnyddio ar gyfer eich proses recriwtio barhaol?*

Mae Comisiwn y Senedd yn defnyddio system olrhain recriwtio ar-lein a ddarperir gan Webrecruit.

Yn gywir,

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF